

# Cartrefi Cymunedol Cymru

## Cynhadledd Prif Weithredwyr

#chiefexecs17

# Cynhadledd Prif Weithredwyr Cartrefi Cymunedol Cymru

## Stadiwm Dinas Caerdydd | 22 Mehefin 2017

| | |
|---|---|
| 09:30 AM | Cofrestru |

| | |
|---|---|
| 10:00 AM | Croeso'r Cadeirydd |
| | |

| | |
|---|---|
| **10:10 AM** | **Ymyrryd Adeiladol** |
| | *Oke Eleazu, Prif Swyddog Gweithredol Bought By Many* |
| | **Ystafell...** |
| | Mae angen bellach i Gymdeithasau Tai arallgyfeirio a dod yn fentrau cymdeithasol yn ogystal â gwneud y gwaith dydd. Meddwl Busnes - Calon Gymdeithasol, sut allwn ni gyflawni hyn ond dal i roi'r cwsmer wrth galon y busnesau? Bu gan Oke nifer o swyddi uwch mewn sefydliadau mawr oll yn canoli ar wella profiad cwsmeriaid, yn fwy diweddar fel Cyfarwyddydd Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid ar gyfer Sainsbury's. Bydd yn ein helpu i ystyried sut y gall ymyrryd ar Wasanaeth Cwsmeriaid arwain at Drawsnewid Busnes. |

| | |
|---|---|
| **11:00 AM** | **Targedau ymyrrol - grymuso staff, newid diwylliant ac adeiladu ymddiriedaeth.** |
| | *Tracy Myhill, Prif Swyddog Gweithredol, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru* |
| | Bydd Tracy yn siarad am wella darpariaeth gwasanaeth a pherfformiad yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru. Symud o dargedau amser ymateb o blaid dadansoddi canlyniadau clinigol a newid diwylliant sefydliadol. |

| | |
|---|---|
| | Mae Tracey yn gyn Ddirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddydd Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda mwy na 30 mlynedd o brofiad yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru. |

| **11:45 AM** | **Egwyl Lluniaeth** |
|---|---|

| **12:15 PM** | **Ymyrryd ar yr Economi** |
|---|---|
| | *Karel Williams, Athro Cyfrifeg ac Economi Wleidyddol, Ysgol Fusnes Manceinion* |
| | **Ystafell …** |
| | Nid yw datganoli yn gweithio wrth drin diffyg cydraddoldeb yng Nghymru. A allai economi sylfaenol weithio i bobl leol?<br><br>Bydd Karel yn cyflwyno ei sylwadau a datrysiadau ar drin anghydraddoldeb yng Nghymru |

| **1:00 PM** | **Cinio** |
|---|---|

| **2:00 PM** | **Datganoli Ymyrrol** |
|---|---|
| | *Ashley Rogers, Cadeirydd, Ysgol Fusnes Leeds* |
| | Mae bargeinion dinesig Caerdydd ac Abertawe yn dod i siâp. Beth allwn ni ei ddysgu o brofiad Pwerdy'r Gogledd? Mae gan Ashley lawer iawn o brofiad, o farchnata a rheoli cynnyrch ar gyfer Cole & Mason hyd at fusnes biliynau o bunnau cynnyrch defnyddwyr Newell Rubbermaid yn yr Unol Daleithiau. Gan weithio mewn gwahanol rannau o Ewrop a byw yn yr Iseldiroedd, Ffrainc, Sbaen a'r Eidal, dysgodd sut i ymdrin yn effeithlon gyda phobl o wahanol genhedloedd. |

| | |
|---|---|
| **2:45 PM** | **Arweinyddiaeth Ymyrrol** |
| | *Michael Taylor, Darlithydd, Ysgol Fusnes Leeds* |
| | *Mae Michael yn Diwtor Academaidd ac Ysgolor PhD yn Ysgol Fusnes Leeds. Ymunodd ag Ysgol Fusnes Leeds yn 2014 mewn rôl unigryw fel Tiwtor Academaidd ac Ysgolor PhD. Cyn symud i academia, bu Michael yn llwyddiannus yn arwain a rheoli amrywiaeth eang o bobl, prosesau a maint grwpiau yn y sector cyhoeddus a phreifat, yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol mewn amrywiaeth o osodiadau gweithredol. Mae ei feysydd addysgu allweddol yn cynnwys Moeseg Busnes, Llywodraethiant, Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Ef yw'r Arweinydd Cwrs cyfredol ar gyfer MSc Llywodraethiant Corfforaethol.* |

| | |
|---|---|
| **3:30 PM** | **Lluniaeth** |

| | |
|---|---|
| **4:15 PM** | **Ymyrriad Ymyrrol** |
| | *Leighton Andrews, Athro Ymarfer mewn Arweinyddiaeth Gwasanaeth Cyhoeddus ac Arloesedd Ysgol Fusnes Caerdydd a Chadeirydd, Tasglu Newyddion Digidol* |
| | Ysgrifennwyd llawer yn ddiweddar am nerth Facebook a Google, nid yn lleiaf am sut mae'n ymyrryd ar yr agenda newyddion. Dewch i glywed pam y cred Leighton y dylent gael eu rheoleiddio. Sut allwn ni ddefnyddio digidol i wella tryloywder a gwella sut y dywedwn ein stori? |

| | |
|---|---|
| **4:45 PM** | **Cau diwrnod 1 y gynhadledd** |

| | |
|---|---|
| **7:00 PM** | **Siaradwr Cyn-cinio: I'w gadarnhau** |
| | **Gwesty Holland House** |